

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Cynllun Gweithredu
2013-2014



Mawrth 2013

Cynnwys

1	Cyflwyniad	2
2	Nodau ac amcanion	3
3	Yr hyn y bydd y Llyfrgell yn ei wneud yn 2013-14	7
4	Yr adnoddau fydd ar gael	20
5	Dangosyddion perfformiad a thargedau allweddol	22
6	Ymchwil a gwerthuso	22
7	Rheoli risg	22

Atodiadau

1	Crynodeb o wariant arfaethedig: costau rhedeg	23
2	Arian cyfalaf	25
3	Dangosyddion perfformiad allweddol	28
4	Dangosyddion perfformiad gwasanaeth	32

1 Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon, y cytunwyd arni rhwng Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru, yn cyflwyno prif waith Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol o Ebrill 2013 i Fawrth 2014, a'r modd y bydd y gwaith hwnnw yn cael ei ariannu.

Mae i'r Cynllun ddwy brif gynulleidfa a phwrpas.

O ran Llywodraeth Cymru mae'n nodi sut y bydd y Llyfrgell yn cyfrannu at nodau ac amcanion y Llywodraeth yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Mae'r Cynllun hefyd o fudd i'r Llyfrgell gan ei fod yn arweiniad ar lefel uchel i'r hyn sydd angen iddi ei gyflawni yn ystod y cyfnod hwnnw. Bydd yn sail i gyfres o gynlluniau gweithredu adrannol.

Mae Adran 2 yn disgrifio sut mae'r Cynllun yn cyd-fynd â nodau ac amcanion y Llyfrgell a Llywodraeth Cymru. Mae Adran 3 yn disgrifio'r prif weithgareddau sydd yn yr arfaeth ar gyfer y Llyfrgell yn 2013-14. Mae Adran 4 yn rhoi crynodeb o'r incwm a'r gwariant ar gyfer y flwyddyn. Yn yr atodiadau ceir manylion am y gyllideb ar gyfer 2013-14, a rhestr o ddangosyddion perfformiad a thargedau.

Paratowyd y Cynllun hwn yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflwyno Cynlluniau Gweithredu a gynhyrchir gan Gyrrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.¹

Yn 2011 cyhoeddodd y Llyfrgell Strategaeth newydd ar gyfer y blynyddoedd 2011-12 hyd at 2013-14. Adlewyrchodd y Strategaeth agendâu strategol Llywodraeth Cymru, gan dynnu ar y ddogfen *2020: golwg hirdymor ar Lyfrgell Genedlaethol Cymru*² (Mawrth 2010) yn ogystal ag ystyried canfyddiadau Ymgynghoriad cyhoeddus ar ddrafft y Strategaeth (gaeaf 2010). Y Cynllun Gweithredol hwn felly yw blwyddyn 3 y Strategaeth newydd. Mae'n debygol y bydd Strategaeth tair blynedd newydd yn cael ei pharatoi yn 2013-14.

¹ Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Canllawiau ar gyfer cynllunio busnes gan Gyrrff Cyhoeddus gweithredol a Noddir gan y Cynulliad 2005/06*.

² <http://www.llgc.org.uk/fileadmin/documents/pdf/Gweledigaeth>

2 Nodau ac amcanion

2.1 Cenhadaeth ac amcanion y Llyfrgell Genedlaethol

Yr awdurdod dros fodolaeth, pwrpas a swyddogaethau'r Llyfrgell yw ei Siarter Frenhinol (1907, Siarter atodol 2006)³. Amcanion y Llyfrgell, yn ôl y Siarter, yw:

Casglu, cadw a rhoi mynediad i wybodaeth gofnodedig o bob math ac ar bob ffurf, yn arbennig gwybodaeth sy'n ymwneud â Chymru a'r Cymry a phobl Geltaidd eraill, er budd y cyhoedd gan gynnwys rhai sy'n ymwneud ag ymchwil a dysgu.

O'r Siarter y daw pum Swyddogaeth Graidd y Llyfrgell (gweler Adran 3.1). Y Swyddogaethau Craidd hyn sy'n ffurfio'r cyd-destun ar gyfer y rhan helaethaf o *waith a gweithgarwch parhaus* y Llyfrgell.

Mae bron y cyfan o'r *cynlluniau penodol ar gyfer datblygiadau yn 2012-13* wedi eu cymryd o'r rhai sydd yn Strategaeth y Llyfrgell, sy'n cwmpasu'r cyfnod 20011-12 hyd at 2013-14⁴. Mae'r cynlluniau wedi eu dethol a'u haddasu yn unol â'r wybodaeth am y Cymorth Grant sydd i'w neilltuo i'r Llyfrgell gan Lywodraeth Cymru (gweler adran 4 isod).

2.2 Amcanion Llywodraeth Cymru

Caiff y Cynllun hwn hefyd ei arwain gan y 'Llythyr Cylch Gorchwyl' a dderbyniwyd gan y Gweinidog dros Tai, Adfywio a Threftadaeth mewn perthynas â Chymorth Grant y Llyfrgell yn ystod 2013-14.

Yn ôl y Llythyr Cylch Gorchwyl mae'r Llyfrgell yn cyfrannu at yr ymrwymadau canlynol yn *Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru*⁵:

Parhau i gynnig mynediad am ddim i Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr effaith fwyaf.

Datblygu potensial cyfryngau digidol i hybu diwylliant drwy Casgliad y Werin a mentrau ar-lein eraill.

Atgyfnerthu cydweithio rhanbarthol yn narpariaeth gwasanaethau llyfrgell, amgueddfa ac archif a sicrhau bod awdurdodau lleol yn cyrraedd safonau cenedlaethol o ran darpariaeth llyfrgelloedd cyhoeddus.

³ http://www.llgc.org.uk/fileadmin/documents/pdf/Siartr_2006.pdf

⁴ http://www.llgc.org.uk/fileadmin/documents/pdf/Strategy2011-12_2013-14.pdf

⁵ <http://wales.gov.uk/docs/strategies/110929fullen.pdf>

Yn ogystal â hyn, ceir cysylltiadau clir rhwng gwaith y Llyfrgell ag agenda strategol ehangach Llywodraeth Cymru, yn enwedig o ran cyfrannu at yr agweddau canlynol ar y *Rhaglen Lywodraethu*:

- diwylliant a threftadaeth Cymru
- addysg
- gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru
- twf a swyddi cynaliadwy

Adlewyrchir y rhyngweithiadau hyn ym mlaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer y Llyfrgell yn 2013-14:

- 1 Ehangu mynediad at gasgliadau a gwasanaethau'r Llyfrgell i bobl ble bynnag y maent yn byw (yng Nghymru a'r byd), hyrwyddo cyfranogiad a chynnwys posbl yn niwylliant a threftadaeth Cymru:
 - Hyrwyddo a darparu casgliadau digidol ac adnoddau'r Llyfrgell mewn llyfrgelloedd ac archifdai lleol
 - Cwblhau'r prosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru i sefydlu a datblygu mynediad at archif deunydd clyweledol ITV Cymru sydd o bwysigrwydd cenedlaethol
 - Cyfrannu at goffâu'r Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru'n genedlaethol, yn cynnwys digido a darparu mynediad at ddeunydd Rhyfel Byd Cyntaf (prosiect partneriaeth a ariennir gan y Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth)
- 2 Gweithio gyda chyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl:
 - Cyfrannu at liniaru tlodi ac annog pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol trwy weithredu Strategaeth Tlodi Plant y Llyfrgell
 - Datblygu sgiliau a darparu profiadau ar gyfer cyflogaeth trwy gyswllt uniongyrchol â'r casgliadau cenedlaethol o dan Strategaeth Wirfoddoli'r Llyfrgell
 - Datblygu sgiliau creadigol oedolion sy'n ddysgwyr a phobl ifanc, mewn ymateb i'r casgliadau cenedlaethol, trwy weithredu Prosiect Eluned Gymraes Davies
 - Cefnogi gweithgaredd dysgu gydol oes trwy waith Gwasanaeth Addysg y Llyfrgell; gwaith Cadeirydd Casgliadau Digidol, ac edrych ar gyfleoedd i gyfrannu at ddatblygu rhaglen Hwb
 - Cefnogi cynhwysiant digidol trwy gynhyrchu cynnwys diwylliannol o ansawdd uchel
 - Cydweithio â Chyngor Celfyddydau Cymru i ddatblygu a darparu arddangosfa arloesol i gyfrannu at ddatlaidau 100 Dylan Thomas

3 Cydweithio gyda'r sector llyfrgelloedd, archifdai ac amgueddfeydd yng Nghymru i ddarparu modelau darparu gwasanaeth cynaliadwy:

- Cyfrannu at ddarparu strategaeth *Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli* trwy gymryd rôl arweiniol i sicrhau mynediad at adnoddau arlein, trwy wefan <http://librarywales.org/cy/> a dulliau eraill, ar gyfer defnyddwyr llyfrgelloedd yng Nghymru
- Cymryd rôl arweiniol i ddarparu prif agweddau rhaglen *Casgliad y Bobl Cymru*
- Cyfrannu at ddarparu strategaeth *Archifau ar gyfer yr 21ain ganrif* trwy ddarparu gwefan archivewales.org.uk, cefnogi gwaith cadwraeth ddigidol, a chyfrannu at brosiect *Cynefin*
- Datblygu cynlluniau ar gyfer prosiect o bwys i sefydlu Canolfan Ragoriaeth Cadwraeth, fel gwasanaeth cenedlaethol i Gymru, ac i'r Llyfrgell

4 Gweithio mewn partneriaeth â Llyfrgelloedd Adnau Cyfreithiol eraill y DU ac Iwerddon i ddatblygu a diogelu'r casgliadau, yn arbennig mewn perthynas â Chymru a'i phobl:

- Dechrau gweithredu Rheoliadau newydd ar adneuo deunydd heb ei argraffu (electronig) yn gyfreithiol, mewn partneriaeth â llyfrgelloedd adnau cyfreithiol eraill

5 Sicrhau bod y Llyfrgell yn parhau i wario arian cyhoeddus yn ddoeth ac yn effeithlon

- Gweithredu cam nesaf Rhaglen Trawsnewid Busnes y Llyfrgell i sicrhau bod staff, adnoddau a chyfleusterau'r Llyfrgell yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac effeithlon
- Ceisio cynyddu incwm o weithgareddau creu incwm, yn cynnwys y siop arlein newydd
- Chwilio am gyfleoedd ariannu allanol ar gyfer prosiectau penodol a chefnogi gweithgareddau'r Llyfrgell
- Edrych ar gyfleoedd i ddatblygu a gweithredu'r Rhaglen Datblygu Gofod

6 Gweithio ar y cyd â'r sector diwydiannau creadigol yng Nghymru i wneud y gorau o gyfleoedd i fusnesau ddefnyddio casgliadau'r Llyfrgell:

- Helpu cwmnïau i fanteisio ar adnoddau digidol detholedig yn y Llyfrgell trwy brosiect *DigiDo* sy'n cael ei ariannu o Ewrop
- Parhau i ddatblygu gwasanaethau masnachol i ddarparu adnoddau o Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru i gwmnïau yn y cyfryngau

Y mae hefyd yn ofynnol i'r Llyfrgell nodi sut bydd, yng ngeiriau'r Llythyr Cylch Gwaith yn:

- ❑ Darparu a gwerthuso rhaglenni gwaith, gan gynnwys dyrannu adnoddau, cerrig milltir, targedau a risgiau
- ❑ Gosod targedau ar gyfer codi incwm a chyflawni arbedion effeithlonrwydd;
- ❑ Cyfrannu at waith cyrff cyhoeddus eraill a gweithio mewn partneriaeth i gyflawni canlyniadau allweddol ehangach;
- ❑ Cyfathrebu, ymgysylltu, a chydweithio'n agos â'r Sectorau Gwirfoddol a Phreifat lle bo hynny'n briodol;
- ❑ Cefnogi'r gwaith o weithredu polisïau a strategaethau megis Cynllun Gofodol Cymru, a'r Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy;
- ❑ Cefnogi'r gwaith o gyflwyno Strategaethau Cymunedol yr awdurdodau lleol a'r prosiect Ardal Adfywio Strategol Aberystwyth;
- ❑ Ymgysylltu â'r cyhoedd mewn ffordd ystyrlon fel rhan o'ch ymgynghoriadau rheolaidd;
- ❑ Prif ffrydio datblygu cynaliadwy, cydraddoldeb, gweithio mewn partneriaeth, a hyrwyddo'r iaith Gymraeg i'ch dull o weithredu, a chydymffurfio â dyletswyddau statudol perthnasol;
- ❑ Asesu goblygiadau eich penderfyniadau cyllidol ar faterion cydraddoldeb
- ❑ Dangos eich ymrwymiad i fynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru yn unol â Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010;
- ❑ Parhau â'ch ymrwymiad i Raglen Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth Cymru, gan dargedu gwasanaethau lle bo hynny'n briodol, yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o Gymru. Hoffem weld y gwaith a gynhelir mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, ac yn benodol y gwaith a wneir i ddatblygu ardaloedd Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf, yn cael ei gynnwys mewn adroddiadau chwarterol a blynyddol. Drwy gryfhau'r cysylltiadau hyn, rydym am wneud y mwyaf o'r potensial i rannu adnoddau wrth ddarparu gwasanaethau a fydd yn helpu i leihau'r bylchau sy'n bodoli rhwng teuluoedd sy'n byw mewn cartrefi incwm isel a'u cymheiriaid sy'n byw mewn amgylchiadau gwell o ran iechyd, addysg a sgiliau a chanlyniadau economaidd.
- ❑ Cymryd camau tuag at sicrhau bod pob aelod o staff yn cael eu talu ar neu'n uwch na'r Cyflog Byw, gan weithio tuag at ei weithredu erbyn Ebrill 2015.

3 Yr hyn y bydd y Llyfrgell yn ei wneud yn 2013-14

Gellir rhannu'r hyn y bydd y Llyfrgell yn ceisio'i gyflawni yn 2012-13 yn ddau gategori:

- parhau â gwasanaethau
- datblygiadau

3.1 Parhau â gwasanaethau

O fewn cyfyngiadau'r adnoddau sydd ar gael, bydd y Llyfrgell yn parhau i gyflawni'r gweithgareddau sylfaenol sydd gyda'i gilydd yn ffurfio ei Swyddogaethau Craidd. Mae pob un ohonynt yn berthnasol i amcanion Llywodraeth Cymru fel y'u mynegir yn *Cymru'n Un*.

Cadarnhawyd y Swyddogaethau Craidd gan yr ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn 2007, ac fe gânt eu hailddatgan yn ein Strategaeth. Dyma'r pum Strategaeth Graidd:

- casglu
- cadw
- darparu mynediad a gwybodaeth
- cyhoeddusrwydd a dehongli
- cydweithio proffesiynol

Casglu

Casglu deunyddiau drwy adneuo cyfreithiol a gwirfoddol, pwrcasu, rhoi, cymynroddi, cyfnewid ac adneuo, yn unol â pholisïau datblygu casgliadau felly cytunwyd arnynt.

Cyflawnir y swyddogaeth hon drwy:

- Iunio casgliad mor gyflawn â phosibl o ddeunydd cyhoeddedig sy'n ymwneud â Chymru (ac i raddau llai â'r gwledydd Celtaidd eraill), gan gynnwys cyhoeddiadau printiedig, cyhoeddiadau electronig a deunydd sain a delweddau symudol
- cynnal (drwy brynu ac adneuo cyfreithiol yn bennaf) y casgliad mwyaf cynhwysfawr yng Nghymru o ddeunydd printiedig a gyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon, ac o ddeunydd ymchwil o wledydd eraill
- datblygu casgliadau o ddeunyddiau sydd heb eu cyhoeddi sy'n ymwneud â Chymru neu'n deillio o Gymru, gan gynnwys archifau a gweithiau artistig
- derbyn, prosesu, catalogio a storio deunydd a gaiff y Llyfrgell yn y ffordd fwyaf effeithiol

Cadw

Cadw a gwarchod deunyddiau yn y casgliadau.

Cyflawnir y swyddogaeth hon drwy:

- sicrhau bod yr amgylchedd a'r amodau wrth storio a thrafod defnyddiau yn addas i'w cadw'n barhaus
- ymyrryd i warchod deunyddiau a thrwy hynny eu hatal rhag dirywio, neu eu hatgyweirio
- mewn rhai achosion, trosglwyddo gwybodaeth i fformatau mwy addas i'w cadw

Darparu mynediad a gwybodaeth

Darparu mynediad boddhaol ar gyfer defnyddwyr y Llyfrgell i'w hadeilad, ei chasgliadau a'i gwasanaethau, a sicrhau gwybodaeth ddigonol amdanynt.

Cyflawnir y swyddogaeth hon drwy:

- barhau i ymchwilio, monitro a dadansoddi anghenion defnyddwyr
- darparu mynediad i fannau cyhoeddus, casgliadau a chyfleusterau yn adeilad y Llyfrgell
- darparu gwasanaethau cyflenwi dogfennau, ymholiadau a gwybodaeth ar gyfer y rhai sy'n dymuno defnyddio'r Llyfrgell, yn bersonol neu o bell
- darparu mynediad rhwydd i gatalogau a rhestrau o gasgliadau'r Llyfrgell, ac adnoddau electronig cyhoeddedig, a chopïau o ddetholiadau ohonynt

Cyhoeddusrwydd a dehongli

Codi ymwybyddiaeth o gasgliadau'r Llyfrgell a lledaenu gwybodaeth amdanynt.

Cyflawnir y swyddogaeth hon drwy:

- osod deunydd ar wefan y Llyfrgell
- cyhoeddi canllawiau, taflenni a deunyddiau cyhoeddusrwydd eraill
- cynnal arddangosfeydd a gweithgareddau addysgol yn deillio o'r casgliadau
- trefnu darlithoedd a seminarau

Cydweithio proffesiynol

Cydweithio a, lle bo'n briodol, rhoi arweiniad i gyrff proffesiynol cysylltiedig a chyrrff eraill ym meysydd gwasanaethau llyfrgell a gwybodaeth, archifau, rheoli cofnodion, amgueddfeydd ac orielau.

Cyflawnir y swyddogaeth hon drwy:

- weithredu fel canolbwynt i gyrrff llyfrgelloedd ac archifau yng Nghymru
- cydweithio gyda chyrrff yng Nghymru, ym Mhrydain a thu hwnt i hyrwyddo mentrau cydweithredol a phartneriaethau, a hybu ymarfer proffesiynol

Swyddogaethau ategol

Mae'r Llyfrgell yn darparu sylfaen i gyflawni'r pum swyddogaeth graidd hyn drwy gyfrwng y 'swyddogaethau ategol' canlynol:

- rheoli a datblygu ei hadnoddau dynol
- cyllidebu, rheoli ac atebolrwydd ei hadnoddau ariannol, a chreu incwm a chodi arian
- cynnal a datblygu isadeiledd technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r Llyfrgell
- cynnal a chadw a datblygu adeilad y Llyfrgell a'i chyfleusterau

Gwasanaeth yw'r Llyfrgell yn anad dim, ac mae'r rhan fwyaf o'i hadnoddau wedi eu neilltuo i gynnal y Swyddogaethau Craidd er mwyn cyflawni'r gwasanaeth hwnnw.

3.2 Datblygiadau

Bwriedir canolbwyntio'r adnoddau ychwanegol fydd ar gael ar ddatblygiadau sy'n cefnogi amcanion Strategaeth y Llyfrgell.

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r prif ddatblygiadau sydd yn yr arfaeth ar gyfer y flwyddyn. Nid ydynt wedi eu rhestru yn ôl eu blaenoriaeth. Mae'r mwyafrif ohonynt yn deillio o'r 'prif ddatblygiadau' a restrir yn y Strategaeth.

Rhestrir y datblygiadau yn ôl Swyddogaethau Craidd y Llyfrgell. O dan y datblygiad priodol nodir (*mewn llythrennau italig*) unrhyw weithredu mwy penodol a fwriedir ar gyfer 2013-14, ac mewn achosion priodol sut y bydd y gweithredu hwnnw yn cyfrannu at yr amcanion penodol a restrir yn y Llythyr Cylch Gorchwyl (gweler tud 4-5).

1 Casglu	
1.1	<p>Parhau i weithio tuag at weithredu Deddf Llyfrgelloedd Adnau Cyfreithiol 2003, gan gynnwys paratoi ar gyfer gweithredu adnau electronig yn gyfreithiol.</p> <p><i>Dechrau gweithredu'r Rheoliadau newydd ar adneuo deunydd heb ei argraffu (electronig) yn gyfreithiol, mewn partneriaeth â llyfrgelloedd adnau cyfreithiol eraill.</i></p> <p><i>Parhau i gynllunio, datblygu a chynnal isadeiledd technegol, systemau, gweithdrefnau a llif gwaith i weithredu'r Rheoliad yn y Llyfrgell, a dechrau derbyn y deunydd cychwynnol. Parhau i</i></p>

	<p><i>gydweithio a chyhoeddwyd a chyflenwyd cyhoeddiadau electronig, yn enwedig yng Nghymru.</i></p> <p>[Llythyr Cylch Gorchwyl 4.1]</p>
1.2	<p>Gweithredu'r Polisi Datblygu Casgliadau (2010), sy'n rhoi pwyslais ychwanegol ar anghenion defnyddwyr y presennol a'r dyfodol sy'n disgwyl mynediad ar-lein i'n holl adnoddau.</p> <p><i>Parhau i fod yn fwy dethol wrth ddewis yr hyn sy'n cael ei gasglu ar ffurf print, cynyddu mynediad at yr adnoddau electronig sydd ar gael y tu hwnt i'r adeilad, a dechrau gweithredu'r llif gwaith i brosesu a chynig mynediad i archifau digidanedig.</i></p> <p><i>Parhau i weithredu'r Strategaeth Adneuo a'i hehangu i gynnwys Archif Genedlaethol Sgrin a Sain.</i></p> <p><i>Parhau i weithredu'r Polisi Gwerthuso Archifau.</i></p> <p><i>Adolygu'r Polisi Datblygu Casgliadau. (2010).</i></p>
1.3	<p>Ymgymryd â rhaglenni ar raddfa fwy er mwyn darparu casgliadau chwiliadwy ar ffurf testun.</p> <p><i>Cyfrannu at goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru'n genedlaethol, yn cynnwys digido a darparu mynediad at ddeunydd Rhyfel Byd Cyntaf (prosiect partneriaeth a ariennir gan y Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth). Cwblhau'r prosiect ar y cyd, a ariennir gan JISC, i ddigido deunydd o'r Rhyfel Byd Cyntaf. Chwilio am gyfleoedd ariannu i barhau i ddigido deunydd archifol o'r Rhyfel Byd Cyntaf. Datblygu adnoddau addysgol a'u cynnig trwy Hwb. Datblygu gwefan i bontio'r prosiect a ariennir gan JISC a'r arddangosfa a sicrhau presenoldeb cyson yn y Llyfrgell yn ystod y cyfnod coffáu trwy greu rhyngwyneb ar gyfer ei allbynnau yn ystod y cyfnod.</i></p> <p><i>Monitro'r defnydd o'r adnodd Papurau Newydd a Chylchgronau Cymraeg Ar-lein a pharhau i ychwanegu teitlau, ynghyd â'r OCR fydd yn fodd i chwilio'r cynnwys.</i></p> <p><i>Nodi gofynion ar gyfer llwyfan cymorth torfol i hwyluso'r broses o wella a chywiro data, a datblygu polisiau cysylltiedig.</i></p> <p><i>Parhau i gyfrannu at brosiect DigiDo' (Digido ar gyfer Busnes), yn unol â'r amserlen a gymeradwywyd.</i></p> <p><i>Cyfrannu at gynnwys cynllun Ymchwil Europeana yr Undeb Ewropeaidd a monitro'r defnydd o gynnwys y Llyfrgell ar Lyfrgelloedd Ewropeana.</i></p> <p><i>Parhau i weithredu'r rhaglen ddigido a ariennir yn fewnol, gan</i></p>

	<p><i>gynnwys elfennau o ‘Theatr y Cof’ (treftadaeth brintiedig Cymru).</i></p> <p>[Llythyr Cylch Gorchwyl 1.3, 6.1]</p>
1.4	<p>Gweithredu'r Rhaglen Trawsnewid Busnes 2011-14, er mwyn galluogi'r Llyfrgell i wneud y defnydd mwyaf effeithiol ac effeithlon o'i holl adnoddau ac i ymateb yn hyblyg i newid allanol a gofynion newydd.</p> <p><i>Gweithredu cam nesaf Rhaglen Trawsnewid Busnes y Llyfrgell i sicrhau bod staff, adnoddau a chyfleusterau'r Llyfrgell yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac effeithlon.</i></p> <p><i>Parhau â'r pedair thema a ddewiswyd, pob un ohonynt a chyfres o Brosiectau:</i></p> <ol style="list-style-type: none"> <i>1 prosesau effeithiol ac effeithlon</i> <i>2 gweithlu hyblyg</i> <i>3 darganfod adnoddau</i> <i>4 datblygu casgliadau</i> <p><i>Caiff y rhain eu cymhwyso i brosesau a llif gwaith sy'n ymwneud â chasgliadau'r Llyfrgell, gyda phwyslais arbennig ar anghenion darllenwyr, a chan ddefnyddio egwyddorion ‘bod yn ddarbodus’ a rheoli newid.</i></p> <p>[Llythyr Cylch Gorchwyl 5.1]</p>
1.5	<p>Gweithredu'r Polisi a'r Strategaeth Disgrifio a Darganfod Adnoddau (2010).</p> <p><i>Parhau i weithredu'r polisi, i gynnwys: cysylltu metadata'r Llyfrgell, er enghraifft, a COPAC, OCLC WorldCat, Europeana, Casgliad y Werin; awtomeiddio metadata er mwyn gallu dod o hyd iddynt yn hawdd drwy beiriannau chwilio fel Google, symleiddio prosesau casglu a chreu metadata a'u gwneud yn llai costus; llunio cynllun i reoli deunydd analog a digidol sydd yn aros i gael eu prosesu.</i></p> <p><i>Gweithredu safon RDA yn unol â'r amserlen a rennir â'r llyfrgelloedd adnau cyfreithiol. Cyfrannu cofnodion llyfryddol sy'n cydymffurfio â RDA i'r Cynllun Catalogio a Rennir a chofnodion yr awdurdod i NACO.</i></p> <p><i>Cynnal arolwg o'r Polisi a'r Strategaeth Disgrifio a Darganfod Adnoddau (2010).</i></p>
1.6	<p>Datblygu swyddogaethau'r System Rheoli Gwybodaeth er mwyn estyn a gwella gwasanaethau i ddefnyddwyr.</p> <p><i>Parhau i fonitro a chynnal systemau rheoli casgliadau'r Llyfrgell a gwella profiad defnyddwyr o ran darganfod adnoddau.</i></p> <p><i>Dechrau gweithredu argymhellion yr Adolygiad Safonau (Chwefror</i></p>

	<i>2013) o fewn cyfyngiadau ariannol.</i>
1.7	<p>Gan gymryd y bydd adnoddau ychwanegol ar gael, dechrau gweithredu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a lofnodwyd gydag ITV Cymru ynghylch trosglwyddo archif y sianel i'r Archif Genedlaethol Sgrin a Sain.</p> <p><i>Cwblhau'r prosiect i sefydlu a datblygu mynediad at Archif ITV o ddeunydd clyweledol o bwysigrwydd cenedlaethol.</i></p> <p><i>Cynnal y gwasanaeth i ITV, a datblygu a chynnal mynediad i'r cyhoedd trwy'r catalog.</i></p> <p>[Llythyr Cylch Gorchwyl 1.2]</p>
2 Cadw	
2.1	<p>Cynnal y rhaglenni cadwraeth ataliol a thriniaeth cadwraeth yn unol â'r targedau a osodwyd.</p> <p><i>Parhau i weithredu a monitro cynnydd tuag at yr argymhellion sydd yn yr adolygiad o'r gwasanaethau, strategaethau a'r polisi cadwraeth.</i></p>
2.2	<p>Yn unol ag egwyddorion ac argymhellion y Strategaeth Cadwedigaeth Ddigidol, buddsoddi ac ymchwilio i systemau a sgiliau a fydd yn diogelu ac yn sicrhau mynediad at yr adnoddau digidol a gedwir yn storfa ddigidol y Llyfrgell.</p> <p><i>Parhau i gynnal mynediad parhaus at yr adnoddau digidol a gedwir yn y Llyfrgell drwy gynnwys cadwraeth ddigidol mewn llif gwaith a thrwy weithredu'r Strategaeth Cadwedigaeth Ddigidol 2012-15 (2012) a'r Strategaeth Ddigidol 2012-15 (2012).</i></p>
2.3	<p><i>Datblygu cynlluniau a cheisiadau cysylltiedig am gyllid ar gyfer prosiect o bwys i sefydlu Canolfan Ragoriaeth Cadwraeth, fel gwasanaeth cenedlaethol i Gymru a'r Llyfrgell.</i></p> <p>Llythyr Cylch Gorchwyl 3.4</p>
3 Darparu mynediad a gwybodaeth	
3.1	<p>Sicrhau bod cynllunio a gwasanaethau'r Llyfrgell yn adlewyrchu anghenion defnyddwyr corfforol a defnyddwyr o bell y Llyfrgell, fel y nodwyd drwy ymgynghori â defnyddwyr, a thrwy fonitro a gwerthuso gwybodaeth am ddefnyddwyr.</p> <p><i>Gwella ffyrdd o gasglu a dadansoddi gwybodaeth am anghenion ac arferion defnyddwyr a rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr (ymwelwyr, darllenwyr a chwsmeriaid; rhai corfforol a rhithwir); gweithredu ar ganlyniadau'r wybodaeth hon.</i></p>

	<p><i>Sefydlu proses a fydd yn rhoi modd i ddefnyddwyr fynegi eu barn am yr eitemau a ddewisir i'w digido.</i></p> <p><i>Gweithredu cynllun peilot i adnabod yr e-lyfrau Cymraeg sydd o ddiddordeb i ddefnyddwyr.</i></p> <p><i>Sefydlu dull cyson o gasglu adborth o ddigwyddiadau'r Llyfrgell.</i></p> <p><i>Gwneud cais i gael ail asesiad ar gyfer safon Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth i Gwsmeriaid (Gorffennaf 2013).</i></p>
3.2	<p>Gweithredu Strategaeth Ddigidol 2012-15 (2012).</p> <p><i>Cefnogi cynhwysiant digidol trwy gynhyrchu cynnwys diwylliannol o ansawdd uchel.</i></p> <p><i>Helpu cwmnïau i fanteisio ar adnoddau digidol detholedig yn y Llyfrgell trwy brosiect DigiDo a ariennir o Ewrop.</i></p> <p><i>Gweithredu'r strategaeth a fydd yn caniatáu:</i></p> <p><i>Digido ar gyfer mynediad;</i> <i>Digido ar gyfer cadwedigaeth;</i> <i>Digido ar gyfer defnyddwyr a chwsmeriaid allanol.</i></p> <p>Gweler hefyd 1.3.</p> <p>[Llythyr Cylch Gorchwyl 2.5, 6.1]</p>
3.3	<p>Datblygu Rhwydwaith Gyfrifiadurol Gymdeithasol Web 2.0 a 3.0 a dechrau cynllunio ar gyfer Web 4.0.</p> <p><i>Parhau i ehangu ein defnydd o gyfryngau cymdeithasol Gwe 2.0, er mwyn hyrwyddo ac ymgysylltu â'n defnyddwyr.</i></p> <p><i>Parhau i chwilio am dechnolegau arloesol newydd i hyrwyddo gwaith y Llyfrgell.</i></p> <p><i>Ail-ddylunio'r brif wefan i gyd-fynd â brand gweledol newydd y Llyfrgell, ac i wella'r ffordd y mae'r cyfryngau cymdeithasol wedi'u hintegreiddio.</i></p> <p><i>Hyrwyddo a hwyluso'r defnydd ar gasgliadau'r Llyfrgell gan ddefnyddwyr allanol, gan ddilyn canllawiau penodol.</i></p>
3.4	<p>Datblygu ein harbenigedd mewn hawliau gwybodaeth drwy adolygu gweithdrefnau mewnol, ac ymateb i ddatblygiadau yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol yn ogystal â chyfrannu at y datblygiadau hynny.</p> <p><i>Parhau i ddatblygu ein harbenigedd mewn hawliau gwybodaeth, a</i></p>

	<p><i>pharhau i ddatblygu a gweithredu ein polisiau a'n gweithdrefnau mewnol.</i></p> <p><i>Ymateb i, a chyfrannu at, ddatblygiadau yn y Deyrnas Gyfunol ac yn rhyngwladol.</i></p> <p><i>Meithrin a hyrwyddo agwedd agored tuag at hawliau gwybodaeth drwy rannu gwybodaeth berthnasol â'n partneriaid a'n defnyddwyr.</i></p> <p><i>Defnyddio'r We a chysylltiadau a llyfrgelloedd, archifau ac amgueddfeydd eraill i rannu gwybodaeth am ein rheolaeth o hawliau gwybodaeth.</i></p>
3.5	<p>Datblygu gweithgareddau Cadair newydd Casgliadau Digidol Prifysgol Cymru, a hynny er budd y Llyfrgell a phawb sy'n defnyddio ei chasgliadau electronig.</p> <p><i>Cefnogi'r Athro Lorna Hughes yn yr amcanion a osodwyd ar gyfer ei hail flwyddyn yn y Gadair wrth iddi barhau i ehangu'r defnydd a wneir o'r casgliadau digidol, yn enwedig drwy bartneriaethau, cyllid allanol ac arloesedd technegol.</i></p> <p>[Llythyr Cylch Gorchwyl 2.4]</p>
3.6	<p>[Datblygu gwasanaethau addysg]</p> <p><i>Datblygu sgiliau creadigol oedolion sy'n ddysgwyr a phobl ifanc, mewn ymateb i'r casgliadau cenedlaethol, trwy weithredu Prosiect Eluned Gymraes Davies.</i></p> <p><i>Datblygu pecynnau gwaith sy'n benodol i'r cwricwlwm yn seiliedig ar gasgliadau'r Llyfrgell, i'w cyflwyno i a thrwy Hwb.</i></p> <p>[Llythyr Cylch Gorchwyl 2.3, 2.4]</p>
3.7	<p>Gweithredu'r Polisi Gwirfoddoli (2010).</p> <p><i>Datblygu sgiliau a darparu profiadau ar gyfer cyflogaeth trwy gyswllt uniongyrchol â'r casgliadau cenedlaethol o dan Strategaeth Wirfoddoli'r Llyfrgell.</i></p> <p><i>Adolygu'r Polisi Gwirfoddoli (2010).</i></p> <p>[Llythyr Cylch Gorchwyl 2.2]</p>
3.8	<p>Gweithredu'r Strategaeth Tlodi Plant newydd.</p> <p><i>Cyfrannu at liniaru tlodi ac annog plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau trwy weithredu Strategaeth Tlodi Plant y Llyfrgell.</i></p> <p>[Llythyr Cylch Gorchwyl 2.1]</p>

4 Cyhoeddusrwydd a dehongli	
4.1	<p>Parhau i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn holl weithgarwch y Llyfrgell.</p> <p><i>Parhau i gyfrannu at strategaeth iaith Fyw Llywodraeth Cymru drwy hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Parhau i weithredu Cynllun iaith Gymraeg 2010-14 (2010).</i></p>
4.2	<p>Parhau i godi proffil y Llyfrgell.</p> <p><i>Hyrwyddo a darparu gwasanaethau a chasgliadau digidol y Llyfrgell mewn llyfrgelloedd ac archifdai lleol.</i></p> <p><i>Trefnu'r tymor estyn allan ym Mlaenau Ffestiniog yn (2013) a Sir Benfro yn 2014.</i></p> <p><i>Cynllunio sylw cenedlaethol a/neu ryngwladol amserol i'r rhaglenni a restrir yn 1.3 uchod.</i></p> <p><i>Parhau i gysoni brand gweledol y Llyfrgell, yn unol â'r cytundeb â chwmni Efen.</i></p> <p><i>Gweler hefyd 5.4.</i></p> <p>[Llythyr Cylch Gorchwyl 1.1]</p>
4.3	<p><i>Cydweithio â Chyngor Celfyddydau Cymru i ddatblygu a darparu arddangosfa arloesol i gyfrannu at ddathliadau 100 Dylan Thomas</i></p> <p>[Llythyr Cylch Gorchwyl 2.6]</p>
5 Cydweithio proffesiynol	
5.1	<p>Cyfrannu at ddarparu gwasanaethau cydgysylltiedig gyda CNLCau Treftadaeth eraill a'r fenter twristiaeth ddiwylliannol.</p> <p><i>Gweithio ar fentrau penodol ar y cyd ag Amgueddfa Genedlaethol Cymru a chydweithio â chyrff Treftadaeth eraill a noddir gan Lywodraeth Cymru.</i></p> <p><i>Cyfrannu i waith Fforwm Hanes Cymru.</i></p> <p><i>Cyfrannu'n weithredol at fentrau twristiaeth ddiwylliannol yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol.</i></p>
5.2	<p>Parhau i chwarae rhan flaenllaw wrth ddarparu Casgliad y Werin Cymru yn wasanaeth gweithredol.</p>

	<p><i>Parhau i chwarae rhan flaenllaw wrth ddarparu prif agweddau o raglen Casgliad y Werin.</i></p> <p>[Llythyr Cylch Gorchwyl 3.2]</p>
5.3	<p>Cydweithio â llyfrgelloedd, archifau, amgueddfeydd a CyMAL er mwyn gwneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael a chynyddu mynediad ledled Cymru i'r casgliadau cenedlaethol.</p> <p><i>Cyfrannu at ddarparu strategaeth Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli trwy gymryd rôl arweiniol i sicrhau mynediad at adnoddau ar-lein, trwy wefan http://librarywales.org/cy/ a dulliau eraill, ar gyfer defnyddwyr llyfrgelloedd yng Nghymru.</i></p> <p><i>Cyfrannu at ddarparu strategaeth 'Archifau ar gyfer yr 21ain ganrif' trwy ddarparu gwefan archivewales.org.uk, cefnogi gwaith cadwraeth ddigidol, a chyfrannu at brosiect Cynefin.</i></p> <p><i>Parhau i gyfrannu at ddarparu Cymru Ddigidol ac edrych ar ffyrdd o gyfrannu at Raglen Hwb.</i></p> <p><i>Cyfrannu i'r cynlluniau i ddathlu canmlwyddiant Dylan Thomas (gweler 4.3).</i></p> <p><i>Gweler hefyd 4.2.</i></p> <p>[Llythyr Cylch Gorchwyl 1.1, 2.4, 3.1, 3.3]</p>
5.4	<p>Cefnogi partneriaid lleol yng Nghynllun Ardal Adfywio Strategol Aberystwyth.</p> <p><i>Parhau i gyfrannu at drafodaethau a chynlluniau'r Bwrdd, ac i fwrw ymlaen â'r nod o gael cyswllt trafnidiaeth rhwng y Llyfrgell a'r Brifysgol.</i></p>
5.5	<p>Cydweithio â sefydliadau yn y Deyrnas Unedig mewn meysydd sy'n berthnasol i'r Llyfrgell.</p> <p><i>Cyfrannu at waith Pwyllgor Llyfrgelloedd Adnau Cyfreithiol, Grŵp Casgliadau Sain a Gweledol y DU, Gweithgor Unesco 'Cof y Byd', Llyfrgelloedd Ymchwil y DU a llawer o rai eraill.</i></p>
<p>6 Swyddogaethau cefnogi</p>	
6.1	<p>Cynllunio ar gyfer storio casgliadau yn y dyfodol.</p> <p><i>Gweithredu'r Rhaglen Datblygu Gofod er mwyn galluogi'r Llyfrgell i wneud y defnydd mwyaf effeithiol ac effeithlon o'i gofod, ac i gynllunio</i></p>

	<p><i>ar gyfer anghenion y dyfodol.</i></p> <p><i>Edrych ar gyfleoedd cyllido i ddatblygu a gweithredu'r Rhaglen Datblygu Gofod.</i></p> <p><i>Datblygu gweledigaeth ar gyfer anghenion storio'r dyfodol.</i></p> <p><i>Parhau i wneud gwell defnydd o'r gofod sydd ar gael ar y safle presennol trwy ymestyn y ddarpariaeth yn y stac Gogleddol, a datblygu gofod storio newydd yng nghwrt y Trydydd Adeilad; datblygu Canolfan Gadwraeth arloesol ac adfer rhannau o'r llefydd storio sydd ar hyn o bryd yn cael eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau'n gysylltiedig â chadwraeth.</i></p> <p><i>Parhau i resymoli'r gofod sydd ar gael yn yr adeilad presennol;</i></p> <p><i>Parhau i ddatblygu partneriaethau er mwyn rhannu gofod oddi ar y safle;</i></p> <p><i>Diweddarau, ehangu a gweithredu'r awdit gofod i gynnwys swyddfeydd ac anghenion technoleg gwybodaeth.</i></p> <p>[Llythyr Cylch Gorchwyl 5.4]</p>
6.2	<p><i>Ymrwymo i ddatblygu ein staff er mwyn iddynt fedru darparu gwasanaeth effeithiol i ddefnyddwyr y Llyfrgell.</i></p> <p><i>Parhau i gyflwyno mwy o swyddi a sgiliau generig.</i></p> <p><i>Parhau i weithredu'r Fframwaith Cymwyseddau diwygiedig.</i></p> <p><i>Parhau i weithredu meddalwedd datblygu a rheoli talent newydd (TalentLab).</i></p>
6.3	<p><i>Parhau â'r ymdrechion i godi incwm masnachol i'r Llyfrgell.</i></p> <p><i>Ceisio cynyddu incwm o weithgareddau creu incwm, yn cynnwys y siop ar-lein newydd.</i></p> <p><i>Parhau i ddatblygu gwasanaethau masnachol i ddarparu adnoddau o Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru i gwmnïau yn y cyfryngau.</i></p> <p><i>Diweddarau a gweithredu'r Strategaeth Codi Incwm.</i></p> <p>[Llythyr Cylch Gorchwyl 5.2, 6.2]</p>
6.4	<p><i>Datblygu rhaglenni codi arian.</i></p> <p><i>Adolygu rheolaeth a strwythur y gwaith codi arian.</i></p> <p><i>Chwilio am gyfleoedd ariannu allanol ar gyfer prosiectau</i></p>

	<p><i>penodol a chefnogi gweithgareddau'r Llyfrgell.</i></p> <p><i>Parhau i hybu cynllun nawdd presennol y Llyfrgell (Penodau) a'r cynllun cymynroddion, a chyflwyno ceisiadau i ymddiriedolaethau a sefydliadau.</i></p> <p><i>Sefydlu dulliau i sicrhau cyllid er mwyn pwrcasu eitemau ar gyfer y casgliadau.</i></p> <p>[Llythyr Cylch Gorchwyl 5.3]</p>
6.5	<p>Cydweithio ag Ymddiriedolwyr y Gronfa Pensiwn i fonitro Cynllun Pensiwn y Llyfrgell a gweithio i fynd i'r afael â'r diffyg.</p> <p><i>Parhau i weithredu'n rhagweithiol i reoli a gostwng y diffyg yng nghynllun pensiwn y Llyfrgell.</i></p>
6.6	<p>Parhau i adeiladu'r isadeiledd Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu.</p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>Parhau i ddiogelu a gwarchod asedau technegol y Llyfrgell</i> • <i>Darparu cefnogaeth i holl systemau TGCh y Llyfrgell a systemau lletyol.</i> • <i>Parhau i gryfhau'r isadeiledd TGCh technegol ym mhob ffordd gan gynnwys capasiti (storfa ddigidol a systemau rheoli'r cynnwys), system wrth gefn a chadernid (systemau adfer trychineb a pharhad busnes), a gwella cysylltedd a diogelwch (rhwydweithiau a gweinyddwyr), a hynny o fewn y cyfyngiadau ariannol presennol.</i> • <i>Sefydlu safle adfer trychineb er mwyn parhau â'r swyddogaethau TGCh hanfodol os bydd systemau ar raddfa fawr yn methu</i> • <i>Cefnogi ac ehangu yn unol â gofynion y Cyd-Seilwaith ar gyfer Adnau Cyfreithiol mewn cydweithrediad a'r Llyfrgell Brydeinig a Llyfrgell Genedlaethol yr Alban i sicrhau bod deunydd heb ei argraffu a gesglir yn cael ei gadw a'i ddarparu'n llwyddiannus o dan y Rheoliadau newydd ar gyfer y drefn adneuo gyfreithiol.</i> • <i>Parhau i ddatblygu llif gwaith, meddalwedd a rhyngwynebaw ar gyfer prosiectau hollbwysig y Llyfrgell yn cynnwys ITV a Cymru WW1.</i> • <i>Parhau i weithio gyda a chefnogi partneriaid prosiectau, yn cynnwys partneriaid ymchwil, Casgliad y Bobl Cymru a Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli i sicrhau trefn dechnegol gadarn a chynaliadwy.</i> • <i>Parhau i weithredu'r Strategaeth TGCh newydd i ddarparu ar gyfer amgylchedd TGCh fwy craff, darbodus a gwyrdd, gan gynnwys:</i> <ul style="list-style-type: none"> o <i>Parhau i symud gwasanaethau i isadeiledd rhithiol er mwyn gwella perfformiad, effeithlonrwydd a chadernid gan leihau'r ynni a ddefnyddir gan systemau TGCh.</i> o <i>Parhau i ddatblygu proffesiynoldeb yr isadran TGCh a'i ymateb i anghenion gwaith y Llyfrgell trwy weithredu'n unol ag arfer gorau ITIL.</i>

	<p>o <i>Parhau i chwarae rhan flaenllaw wrth ddatblygu a gweithredu Rhaglen Diogelu Gwybodaeth y Llyfrgell er mwyn nodi a diogelu asedau gwybodaeth y Llyfrgell.</i></p>
6.7	<p>Gweithredu rhannau o'r Strategaeth Adeiladu a Gwasanaethau, a hynny o fewn y cyllid cyfyngedig sydd ar gael.</p> <p><i>Llunio Strategaeth Adeiladu a Gwasanaethau newydd fydd yn ystyried datblygu, gwella ac atgyweirio adeiladau'r Llyfrgell, ynghyd ag unrhyw ofynion ychwanegol sydd yn deillio o'r Rhaglen Datblygu Gofod.</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>Ymgymryd â gwaith atgyweirio hanfodol, gan gynnwys y to a'r isadeiledd ffisegol.</i> • <i>Ymgymryd â gwelliannau cynaliadwyedd.</i> • <i>Addasu'r adeilad mewn ymateb i'r Rhaglen Trawsnewid Busnes a chanfyddiadau'r awdit gofod.</i>
6.8	<p>Prif ffrydio cydraddoldeb.</p> <p><i>Cydweithio'n agos a Llywodraeth Cymru wrth weithredu Deddf Cydraddoldeb 2010 ac yn benodol drwy roi'r Cynllun Cydraddoldeb Sengl 2010-13 (2010) ar waith. Bydd y Llyfrgell yn parhau i brif ffrydio cydraddoldeb a sicrhau bod ein polisiau a'n gwasanaethau yn sicrhau cyfle cyfartal i bawb.</i></p>
6.9	<p>Gweithredu'r Strategaeth Rheoli Cofnodion (2012) newydd.</p> <p><i>Mae'r Strategaeth Rheoli Cofnodion a'r Polisi Rheoli Cofnodion wedi eu drafftio ac fe'u cyflwynir i'r Uwch Dîm Rheoli ac i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr i'w cymeradwyo yn Ebrill 2013. Bydd y Strategaeth yn cael ei threialu o fewn yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol yn ystod Mai - Rhagfyr 2013.</i></p>

4 Yr adnoddau fydd ar gael

4.1 Cymorth grant

Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ar ddyraniadau Cymorth Grant i'r Llyfrgell ar gyfer 2013-14, yn ogystal â ffigyrau dangosol ar gyfer y 2014-15.

	2011-12 £000	2012-13 £000	2013-14 £000	2014-15 £000
Cyllideb sylfaenol	10,972	10,746	10,525	10,541
Lleihad	(226)	(221)	(4)	-
Addasu incwm			20	21
Cymorth Grant Gros	10,746	10,525	10,541	10,562
Heb incwm	(400)	(400)	(420)	(441)
Cyfanswm costau rhedeg	10,346	10,125	10,121	10,121
Grant cyfalaf	550	550	550	550
<i>Grantiau cyfalaf penodol:</i>		530		
Adnau cyfreithiol	100	100	-	
Grant Prynu Casgliadau	305	305	305	305
Cyfanswm cyfalaf	11,301	11,610	10,976	10,976
Cost cyfalaf a dibrisiant	1,250	1,250	1,250	1,250
Cyfanswm	12,551	12,860	12,226	12,226

Mae costau rhedeg y Llyfrgell yn cynnwys yn bennaf gyflogau staff (75%), gyda'r gweddill yn gysylltiedig â'r adeilad, technoleg gwybodaeth, tanysgrifiadau electronig a chostau cylchol eraill. Caiff incwm o weithgareddau masnachu hefyd ei roi yn erbyn costau rhedeg. Defnyddir y *Grant Prynu Casgliadau* i brynu eitemau i gryfhau casgliadau, a defnyddir y *Grant Cyfalaf* i fuddsoddi yn yr adeilad, offer a thechnoleg gwybodaeth. Mae cyllideb y Llyfrgell i'w gweld yn fanwl yn Atodiad 2.

Costau rhedeg

Mae'r grant costau rhedeg net yn lleihau i £10.121m, ar ôl lleihau o £0.451m yn nhermau arian parod ers 2010-11, ac mewn termau gwirioneddol hyd yn oed yn fwy oherwydd effaith chwyddiant. Bydd angen i'r Llyfrgell barhau i chwilio am arbedion effeithlonrwydd ac mae'n anochel y bydd nifer y staff sy'n cael eu hariannu o'r gyllideb graidd yn lleihau. Byddwn yn ceisio diogelu gwasanaethau a gwneud y gorau o gyllid o ffynonellau eraill. Rydym wedi ceisio prif ffrydio prosesau a dileu gwastraff a hybu cydweithio â chyrrff eraill mewn meysydd fel caffael.

Mae costau rhedeg gros ar hyn o bryd yn £11.233m, gyda'r tâl-dros-ben y Cymorth Grant net o £1.112m yn cael ei ariannu o incwm masnachu, Cymorth Grant anghylchol a grantiau eraill o'r llywodraeth.

Gwariant cyfalaf a phrynu casgliadau

Mae'r gyllideb Gyfalaf a Chasgliadau'n her fawr i'r Llyfrgell, ar ôl cael eu torri i lefelau, hyd yn oed yn nhermau arian parod, sy'n llai nag yr oeddent 20 mlynedd yn ôl. Bydd diffyg buddsoddi'n creu problemau o ran cynaliadwyedd hirdymor y casgliadau, y gwasanaethau a'r adeilad ei hun. Ceir rhestr o'r cynlluniau cyfalaf posibl yn Atodiad 2. Ond mae'n rhaid i'r cynlluniau hynny sy'n datblygu gyfateb i'r adnoddau sydd ar gael.

Mae'r Llyfrgell yn cydnabod nad oes llawer o gapasiti gan y Llyfrgell i ymateb i ddigwyddiadau annisgwyl. Er mwyn rheoli risg yn briodol mae'n hanfodol cael system effeithiol i reoli'r gyllideb er mwyn sicrhau sefydliad sy'n ariannol gadarn. Rydym yn disgwyl am ganlyniadau ceisiadau am gyllid arbennig o safbwynt adneuo deunydd electronig yn gyfreithiol a gwelliannau cyfalaf hanfodol i strwythur yr adeilad.

Mae gweithgareddau'r Llyfrgell a ariennir gan arian cyhoeddus yn cael eu hategu gan gyfraniadau o'i gronfeydd elusennol. Mae'r cyfraniadau ar gyfer 2013-14 fel a ganlyn:

<i>Cymorth Cronfeydd Preifat</i>	<i>£000</i>
Costau rhedeg	270
Cyfalaf	128
Prynu Casgliadau	69
Cyfanswm	467

5 Dangosyddion perfformiad a thargedau allweddol

Yn Atodiad 3 rhestrir Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs) arfaethedig. Yn Atodiad 4 ceir tabl o Ddangosyddion Perfformiad Gwasanaeth (SPIs).

Caiff canlyniadau'r ddwy set o ddangosyddion perfformiad eu monitro a chyflwynir adroddiad arnynt bob chwarter i Lywodraeth y Cynulliad a Bwrdd y Llyfrgell.

6 Ymchwil a gwerthuso

Un o brif ddyletswyddau'r Llyfrgell Genedlaethol yw cefnogi ymchwil. Mae'n cyfrannu ei hun at ymchwil drwy ei Chadair Casgliadau Digidol, a hynny ym maes creu a defnyddio deunydd ar ffurf ddigidol. Mae hefyd yn gwerthuso ac yn cynnal ymchwil cymhwysol i sicrhau y caiff ei phrif weithgareddau eu cyflawni yn ddeallus ac y cânt eu monitro'n dda. Gwneir hyn drwy:

- ❑ raglen barhaus o adolygu a monitro swyddogaethau a gweithgareddau penodol
- ❑ defnyddio methodolegau cynllunio prosiect safonol ar gyfer pob prosiect mawr a ddatblygir
- ❑ defnyddio dangosyddion perfformiad, rhai meintiol ac ansoddol, gan gynnwys arolygon defnyddwyr

7 Rheoli risg

Mae'r Llyfrgell yn cadw *Cofrestr Risg* ac yn ei diweddarau'n gyson. Mae hon yn rhestru'r holl risgiau o bwys sy'n wynebu'r Llyfrgell wrth iddi gyflawni ei swyddogaethau craidd. Yn achos pob risg dynodir math, cyfradd effaith a thebygolrwydd, a chyfradd gyffredinol, ynghyd â disgrifiad a datganiad o'r modd y caiff pob risg ei rheoli.

Cyflwynir y *Gofrestr Risg* yn rheolaidd i sylw Pwyllgor Archwilio'r Llyfrgell.

Atodiad 1

Crynodeb o wariant arfaethedig: costau rhedeg

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r gwariant arfaethedig ar gostau rhedeg yn 2013-14, yn ôl adran. Gwariant costau rhedeg arfaethedig y Llyfrgell yw £ 11,233,001.

Costau rhedeg - Arian cyhoeddus	Costau cyflogau	Costau nad ydynt yn rhai cyflog	Cyfanswm
Adran y Llyfrgellydd	337,313	285,000	622,313
Adran Gwasanaethau Corfforaethol	2,317,811	1,468,000	3,785,811
Adran Gwasanaethau Casgliadau	3,697,391	530,000	4,227,391
Adran Gwasanaethau Cyhoeddus	1,946,486	341,000	2,287,486
Gweithio oriau ychwanegol, sifft Sadwrn	210,000		210,000
Arian wrth gefn	50,000	50,000	100,000
Gwariant Gros o'r Cyllid Cyhoeddus	8,559,001	2,674,000	11,233,001
Heb incwm			-500,000
Gwariant net o'r Cyllid Cyhoeddus			10,733,001
Gwariant i'w ariannu gan:			
Cymorth Grant			10,121,000
Casgliad y Bobl			220,000

Prifysgol Cymru			90,000
Cronfa'r Loteri Fawr			32,000
Wedi'i ariannu'n rhannol gan grant arbennig ELD			69,000
Arian a Chronfeydd Preifat			201,001
Cyfanswm incwm			10,733,001

Atodiad 2

Arian cyfalaf

Mae'r tabl isod yn rhestru'r prosiectau cyfalaf y mae'r Llyfrgell o'r farn eu bod yn angenrheidiol yn 2013-14. Mae nifer fawr o gynlluniau cyfalaf wedi eu rhestru, ond dim ond y rhai â blaenoriaeth uchel fydd yn cael eu cynnwys yn y rhaglen gyfalaf oherwydd y gostyngiad sylweddol yng nghyfalaf Cymorth Grant.

Grŵp	Disgrifiad	Cynlluniau a Restrwyd	Is gyfanswm grŵp	Cynlluniau a Raglennwyd	Is gyfanswm grŵp
Adeilad	Inswleiddio	50,000		25,000	
	Gwydrau eilaidd	75,000			
	Mynedfa allanol	80,000			
	Mynedfa fewnol - Prif lawr			10,000	
	To - Prif adeilad	350,000			
	Toeau - eraill	1,000,000			
	Gwaith atgyweirio cerrig	600,000			
	Datblygu Gofod - Trawsnewid Busnes	20,000		5,000	
	Datblygu Gofod - celloedd newydd	3,500,000			
	Datblygu Gofod - Stac Llyfrau 1 Gogledd	3,000,000			
	Datblygu Gofod - Canolfan Gadwraeth (Ex BS1N)	13,000,000			
	Cynaliadwyedd - teclynnau trawsnewid pŵer ar ffaniau a phympiau	30,000		10,000	

	Cynaliadwyedd- Gwella a newid y System Rheoli Adeiladau	150,000			
	Cynaliadwyedd- addasiadau i'r system oeri	150,000			
	Cynaliadwyedd- Gwres a Phŵer wedi'u Cyfuno	450,000			
	Cynaliadwyedd- EcoOeri Tan y Blwch	25,000		25,000	
	Cynaliadwyedd- mesuryddion ychwanegol	5,000			
	Cynaliadwyedd- rhesymoli system oeri'r Drwm	15,000			
	Gwella'r system wresogi - Stac Llyfrau 2 swyddfeydd (yn cynnwys ystafell offer newydd)	25,000		25,000	
	Gwella'r system wresogi - adran rwympo	10,000			
	Mynediad diogel at y to	150,000		30,000	
	Gwelliannau i'r silffoedd	50,000		30,000	
	Trawsnewid Busnes ac effeithlonrwydd gofod	60,000		20,000	
	System oleuo/brofi mewn argyfwng	60,000		30,000	
	Diogelwch safle allanol - stepiau ysbyty	30,000		30,000	
	Offer rheoli golau	15,000		5,000	
	Gwella goleuadau'r Oriol	30,000		15,000	
	Stac Llyfrau 1 lifft	80,000			
	Deddf Gwahaniaethau ar sail Anabledd	60,000			
	Celloedd ffotofoltäig	100,000			
	Gwella'r system synhwyro tân - Stac Llyfrau 1 De a 2	75,000		25,000	
	Gwella'r system synhwyro tân - Llawysgrifau	30,000		15,000	
	Diogelwch casgliadau	30,000		30,000	

	Addasiadau ataliol i'r storfa allanol	30,000			
	Newid y system awyru - Llawysgrifau	35,000			
	Newid y system awyru - hen gelloedd	30,000			
	Newid y system awyru - holl offer yn y pendraw	300,000			
	Newid pypiau	100,000			
	Ystafell gweinyddion ychwanegol	200,000			
			24,000,000		330,000
TG	Gweinyddion ac isadeiledd	85,000		85,000	
	Parhad busnes	32,500		32,500	
	Peiriannau argraffu ystafell ddarllen	10,000		10,000	
	ELD	100,000		100,000	
			227,500		227,500
PFF	Amrywiol	20,000		20,000	
			20,000		20,000
Moduron a Cherbydau	Fan newydd	100,000		100,000	
			100,000		100,000
Cyfanswm gwariant		24,347,500	24,347,500	677,500	677,500
Ariannu'r rhaglen gyfalaf	Cymorth Grant				550,000
	Arian Preifat				127,500
	Cyfanswm				677,500

Atodiad 3

Dangosyddion perfformiad allweddol

Dangosydd	Carreg filltir	Yn gyfrifol
1 Ehangu mynediad at gasgliadau a gwasanaethau'r Llyfrgell i bobl ble bynnag y maent yn byw (yng Nghymru a'r byd), hyrwyddo cyfranogiad a chynnwys posibl yn niwylliant a threftadaeth Cymru.	<ul style="list-style-type: none"> ○ Hyrwyddo a darparu casgliadau digidol ac adnoddau'r Llyfrgell mewn llyfrgelloedd ac archifdai lleol ○ Cwblhau'r prosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru i sefydlu a datblygu mynediad at archif deunydd clyweledol ITV Cymru sydd o bwysigrwydd cenedlaethol ○ Cyfrannu at goffau'r Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru'n genedlaethol, yn cynnwys digido a darparu mynediad at ddeunydd Rhyfel Byd Cyntaf (prosiect partneriaeth a ariennir gan y Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth) 	Avril Jones / Arwel Jones
2 Gweithio gyda chyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl	<ul style="list-style-type: none"> ○ Cyfrannu at liniaru tlodi ac annog pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol trwy weithredu Strategaeth Tlodi Plant y Llyfrgell ○ Datblygu sgiliau a darparu profiadau ar gyfer cyflogaeth trwy gyswllt uniongyrchol â'r casgliadau cenedlaethol o dan Strategaeth 	Arwel Jones / David Michael / Avril Jones

	<p>Wirfoddoli'r Llyfrgell</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Datblygu sgiliau creadigol oedolion sy'n ddysgwyr a phobl ifanc, mewn ymateb i'r casgliadau cenedlaethol, trwy weithredu Prosiect Eluned Gymraes Davies ○ Cefnogi gweithgaredd dysgu gydol oes trwy waith Gwasanaeth Addysg y Llyfrgell; gwaith Cadeirydd Casgliadau Digidol, ac edrych ar gyfleoedd i gyfrannu at ddatblygu rhaglen Hwb ○ Cefnogi cynhwysiant digidol trwy gynhyrchu cynnwys diwylliannol o ansawdd uchel ○ Cydweithio â Chyngor Celfyddydau Cymru i ddatblygu a darparu arddangosfa arloesol i gyfrannu at ddathliadau 100 Dylan Thomas 	
<p>3 Cydweithio gyda'r sector llyfrgelloedd, archifdai ac amgueddfeydd yng Nghymru i ddarparu modelau darparu gwasanaeth cynaliadwy.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ○ Cyfrannu at ddarparu strategaeth <i>Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli</i> trwy gymryd rôl arweiniol i sicrhau mynediad at adnoddau ar-lein, trwy wefan library.wales.org a dulliau eraill, ar gyfer defnyddwyr llyfrgelloedd yng Nghymru ○ Cymryd rôl arweiniol i ddarparu prif agweddau rhaglen <i>Casgliad y Bobl Cymru</i> ○ Cyfrannu at ddarparu strategaeth <i>Archifau ar gyfer yr 21ain ganrif</i> trwy ddarparu gwefan 	<p>Avril Jones / David Michael</p>

	<p>archiwewales.org.uk, cefnogi gwaith cadwraeth ddigidol, a chyfrannu at brosiect <i>Cynefin</i></p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Datblygu cynlluniau ar gyfer prosiect o bwys i sefydlu Canolfan Ragoriaeth Cadwraeth, fel gwasanaeth cenedlaethol i Gymru, ac i'r Llyfrgell 	
<p>4 Gweithio mewn partneriaeth â Llyfrgelloedd Adnau Cyfreithiol eraill y DU ac lwerddon i ddatblygu a diogelu'r casgliadau, yn arbennig mewn perthynas â Chymru a'i phobl.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ○ Dechrau gweithredu Rheoliadau newydd ar gyfer adneuo deunydd heb ei argraffu (electronig) yn gyfreithiol, mewn partneriaeth â llyfrgelloedd ADNau cyfreithiol eraill 	Avril Jones
<p>5 Sicrhau bod y Llyfrgell yn parhau i wario arian cyhoeddus yn ddoeth ac yn effeithlon.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ○ Gweithredu cam nesaf Rhaglen Trawsnewid Busnes y Llyfrgell i sicrhau bod staff, adnoddau a chyfleusterau'r Llyfrgell yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac effeithlon ○ Ceisio cynyddu incwm o weithgareddau creu incwm, yn cynnwys y siop ar-lein newydd ○ Chwilio am gyfleoedd ariannu allanol ar gyfer prosiectau penodol a chefnogi gweithgareddau'r Llyfrgell ○ Edrych ar gyfleoedd i ddatblygu a gweithredu'r Rhaglen Datblygu Gofod 	Avril Jones
<p>6 Gweithio ar y cyd â'r sector</p>	<ul style="list-style-type: none"> ○ Helpu cwmnïau i fanteisio ar adnoddau digidol 	David Michael / Arwel

<p>diwydiannau creadigol yng Nghymru i wneud y gorau o gyfleoedd i fusnesau ddefnyddio casgliadau'r Llyfrgell.</p>	<p>detholedig yn y Llyfrgell trwy brosiect <i>DigiDo</i> sy'n cael ei ariannu o Ewrop</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Parhau i ddatblygu gwasanaethau masnachol i ddarparu adnoddau o Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru i gwmnïau yn y cyfryngau 	<p>Jones</p>
--	---	--------------

Atodiad 4

Dangosyddion perfformiad gwasanaeth

<i>Cyfeirnod Rhaglen Lywodraethu</i>	<i>Rhif LIGC.</i>	<i>Mesur</i>	<i>Sut y cesglir y data</i>	<i>Sylw</i>	<i>Targed 2013-2014</i>
	1.1	Cwmpas catalogio - argaeledd cyflenwadau cyfredol o ddeunydd print a dderbyniwyd drwy brynu neu adnau cyfreithiol drwy'r catalog o fewn 2 fis o'u derbyn	Â llaw	Targed o 90% o fewn 2 fis am y flwyddyn gan wella i 95% o fewn mis ym mlwyddyn 2	90% o fewn 2 fis o'i dderbyn
	2.1	Nifer o oriau triniaeth yn ystod y cyfnod	Awtomatig	Nifer o oriau a dreuliwyd yn trin deunyddiau'r Llyfrgell er cadwraeth.	4,800 awr o driniaeth y flwyddyn yn yr isadran
	2.2	Nifer o oriau triniaeth cadwraeth ataliol yn	Awtomatig	Gan ragdybio cymysgedd gymharol sefydlog o waith.	4,800 awr o driniaeth y flwyddyn yn yr isadran

Cyfeirnod Rhaglen Lywodraethu	Rhif LIGC.	Mesur	Sut y cesglir y data	Sylw	Targed 2013-2014
		ystod y cyfnod			
Rhaglen Lywodraethu	3.1	Nifer yr ymweliadau â gwefan(nau) y sefydliad	Mesurwyd gan Google Analytics	<p>Y diffiniad o 'ymweliad' yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae ymweliad â gwefan (a adnabyddir weithiau fel sesiwn i ddefnyddwyr) yn gyfres o un neu ragor o argraffiadau tudalen a roir i un defnyddiwr • Daw'r ymweliad i ben pan fydd y defnyddiwr yn mynd allan o'r gwefan neu ar ôl hanner awr o segurdod • Gall yr un defnyddiwr gael nifer o ymweliadau os â i mewn drachefn ar ôl ymadael neu fod ar y gwefan am hanner awr heb ei ddefnyddio o gwbl. 	Ni osodwyd targed – bydd 2013-24 yn sefydlu llinell waelodol
Rhaglen Lywodraethu	3.2	Nifer yr ymwelwyr â'r Llyfrgell yn ystod y cyfnod	Awtomatig (desg y brif fynedfa) ac â llaw (ymwelwyr anabl yn defnyddio'r drws copr)	Ar hyn o bryd nid yw'n bosibl gwahaniaethu rhwng darllenwyr ac ymwelwyr. (Caiff y ffigyrau sylfaenol eu haddasu i ystyried symudiadau staff ac ati.)	87,000
	3.3	Nifer y tocynnau darllenwyr a roddwyd neu a adnewyddwyd yn ystod y cyfnod (ac a oedd yn ddilys	Awtomatig (o System Tocynnau Darllenwyr)	Bydd yn rhoi ffigwr ar gyfer yr holl docynnau dilys.	8,000

<i>Cyfeirnod Rhaglen Lywodraethu</i>	<i>Rhif LIGC.</i>	<i>Mesur</i>	<i>Sut y cesglir y data</i>	<i>Sylw</i>	<i>Targed 2013-2014</i>
		ar ddiwedd y cyfnod hwnnw).			
	3.4	Yr amser a gymerir i ateb ymholiadau curadurol yn ystod y cyfnod	Awtomatig	Cofnodir gwybodaeth ar gronfa ddata ymholiadau a gedwir gan yr Adran Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r ymholiadau a gynhwysir yn y ffigyrau hyn wedi eu derbyn dros y ffôn, drwy e-bost, ffacs a llythyr.	95% o fewn 10 diwrnod gwaith
	4.1	Nifer y digwyddiadau allanol (ac eithrio arddangosfeydd) e.e. sgyrsiau, darlithoedd, ymweliadau ag ysgolion ac ati.	Â llaw	Gwybodaeth o gofrestr a gynhelir yn ganolog	55
	4.2	Nifer yr eitemau o'r casgliadau sy'n cael eu harddangos yn gyhoeddus (gan gynnwys eitemau yn adeilad y Llyfrgell ac	Â llaw	Gwybodaeth o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus.	500

Cyfeirnod Rhaglen Lywodraethu	Rhif LIGC.	Mesur	Sut y cesglir y data	Sylw	Targed 2013-2014
		ar fenthyg mewn manau eraill)			
	4.3	Asesiad Ansoddol o safonau gwasanaeth	Holiadur Arolwg (Cwestiwn 3 Pwynt 9)	Gwybodaeth a gasglwyd o Gwestiwn 1 yn yr Holiadur Ymwelwyr.	95% o ffurflenni gwerthuso a ddychwelwyd yn ymateb gyda Da lawn neu Dda
	4.4	Asesiad ansoddol o Awyrgylch cyffredinol y Llyfrgell	Holiadur Arolwg (Cwestiwn 1 Pwynt 9)	Gwybodaeth a gasglwyd o Gwestiwn 1 yn yr Holiadur Ymwelwyr.	95% o ffurflenni gwerthuso a ddychwelwyd yn ymateb gyda Da lawn neu Dda
	5.1	Rhaglen Catalogio ar y Cyd (cyfraniad y Llyfrgell i gynllun cydweithredol sy'n cynnwys pob llyfrgell adnau cyfreithiol)	Â llaw	Cyfrif o gofnodion ymgeiswyr ar system Virtua. Sylwer: Mae nifer y llyfrau y derbynia Llyfrgell Genedlaethol Cymru gan Asiantaeth y Llyfrgelloedd Adnau Cyfreithiol wedi lleihau ac mae hyn wedi cael effaith andwyol ar lif gwaith a nifer y cofnodion a anfonir i'r Llyfrgell Brydeinig.	5,000
	6.1	Hyfforddi a Datblygu	Â llaw	A. Canran o amser y staff a dreulir mewn hyfforddiant ffurfiol. (Cydlynu â'r rhaglen Buddsoddwyr mewn Pobl.)	2.2%

<i>Cyfeirnod Rhaglen Lywodraethu</i>	<i>Rhif LIGC.</i>	<i>Mesur</i>	<i>Sut y cesglir y data</i>	<i>Sylw</i>	<i>Targed 2013-2014</i>
				B. Monitro'r adroddiadau gwerthuso ar gyrsiau hyfforddiant er mwyn sicrhau gwelliant parhaus mewn gweithgareddau datblygu staff drwy fonitro'r ymateb i gwestiwn ar berthnasedd y deunydd a drafodwyd (C9).	95% o ffurflenni gwerthuso a ddychwelwyd yn ymateb gyda Da lawn neu Dda
	6.2	Cyllid	Â llaw	Canran yr anfonebau sy'n cael eu talu o fewn 30 diwrnod ar ôl eu derbyn. Sylwer: Bydd anfonebau sy'n destun ymholiad yn cael eu cofnodi.	98%
	6.3	Creu incwm	Â llaw	Targed yn seiliedig ar incwm net y Llyfrgell sy'n deillio o weithgareddau masnachol y siop, Bwyty Pen Dinas, Caffi Bach a'r Isadran Reprograffeg yn ogystal â llif incwm amrywiol heb fod o weithgareddau masnachol	£420,000
	6.4	Nifer yr eitemau a baratowyd ar gyfer sganio (yn ôl delweddau i'w creu) fel rhan o'r rhaglen ddigido fewnol, prosiectau cydweithredol (gan gynnwys	Awtomatig	Bydd staff perthnasol yn sicrhau bod y Llyfrgell yn gweithredu'n unol â'r Proffil Cyflawni y cytunwyd arno.	250,000

<i>Cyfeirnod Rhaglen Lywodraethu</i>	<i>Rhif LIGC.</i>	<i>Mesur</i>	<i>Sut y cesglir y data</i>	<i>Sylw</i>	<i>Targed 2013-2014</i>
		<p>prosiect Rhyfel Byd Cyntaf 1914-1918 (JISC))</p> <p>Nifer y delweddau a grëwyd fel rhan o'r rhaglen ddigido fewnol a phrosiectau cydweithredol gan gynnwys y prosiect Rhyfel Byd Cyntaf (JISC)</p>			250,000
	6.5	Digido ar gyfer Busnes	Â llaw	Cyflawni'r amserlen y cytunwyd arni	Cynorthwyo 35 o fentrau ac 8 unigolyn.

Cyfeirnod Rhaglen Lywodraethu	Rhif LIGC.	Mesur	Sut y cesglir y data	Sylw	Targed 2013-2014
	6.6	Prosiect ITV	Â llaw	Cyflawni'r gofynion a amlinellir yn y cytundeb a'r SLA	Symud y casgliad o Gaerdydd i Aberystwyth (diwedd Awst) a sefydlu gwasanaeth i ITV (dechrau Medi 2013)